# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 5 Mawrth 2026 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Sian Angharad Parry, Miriam Williams, Delyth Parry, Angharad Llwyd-Jones, Tegid Jones, Dewi Thomas, Angela Williams, Dylan Thomas, Gareth Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Aled Davies, Aled Evans, ac Euros Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 5 Chwefror 2026.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Chwefror 2026.**

4. **Datgan buddiant personol**

**Cynghorydd Anwen Jones**
Eitem 24 (a ) materion hwyr cais cynllunio Blaen y Wawr, Chwilog cais am estyniad ochr ddwyreiniol oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeisydd.

**Cynghorydd Dewi Thomas**
Eitem 24 (a ) materion hwyr cais cynllunio Blaen y Wawr, Chwilog cais am estyniad ochr ddwyreiniol oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeisydd.

5. **Sedd newydd yn Ward Llanystumdwy** manylion cyfethol wedi cael ei rhoi ar y wefan a hysbysfwrdd Llanystumdwy hefo dyddiad cau 31.03.2026.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Adroddiad Bioamrywiaeth 2023-2025** – y Clerc wedi ei rannu ymysg y cynghorwyr o flaen y cyfarfod, a'r Cadeirydd wedi ei lofnodi. Mae angen gwneud adroddiad bob 3 mlynedd, a bydd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor.

8. **Cais Cynllunio Tyddyn Berth, Chwilog, Pwllheli - C26/0076/41/LL**

Cais am borth i gysylltu'r eiddo preswyl i adeilad allanol presennol a chreu anecs i greu ardal byw i berson anabl cofrestredig. **Dim gwrthwynebiad**.

**Materion yn y gymuned**.
9. **Llanystumdwy**
a) **Clawdd Maen y Wern** – Clerc wedi derbyn bil, a oedd yn rhy hwyr i'w roi ar y rhaglen. Cytunwyd i dalu'r anfoneb yn dilyn y cyfarfod, a cytunwyd ei fod wedi cael ei dorri'n daclus iawn. **Penderfynwyd na fydd angen ei gynnwys ar yr hysbyseb prisiau o Ebrill 2026 ymlaen oherwydd ei fod newydd gael ei dorri.**

b) **Ysgol Llanystumdwy** - Partneriaeth Natur yng Ngwynedd wedi cadarnhau ei bod wedi gwneud trefniadau i blannu tua 10 o goed ffrwythau Cymreig i greu cynefin newydd ar dir yr ysgol.

Cadarnhaodd Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd fod nifer o ysgolion cynradd yng Ngwynedd yn rhan o'r cynllun yma, ac mae yn ddi-gost i'r ysgol.

ch) **Llinnellau melyn Maen y Wern** – yn dilyn ein cyfarfod diwethaf holwyd barn 4 Cynghorydd Ward Llanystumdwy am sylwadau a wnaed gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig ar ol iddo ymweld â'r safle.
Mae'r ffordd yn culhau i 4.7m gyferbyn a rhif 6 Maenywern ac yna yn agor allan i led o 5.7m. Gyferbyn a rhif 10 mae'r ffordd oddeutu 5.5m sef ychydig yn llai na chyfartaledd lled y ffordd yn ei gyfanrwydd (5.7m)

Dywedodd fod cyfiawnhad i ymestyn y gwaharddiadau presennol oddeutu 15m i leoliad gyferbyn a rhif 6 gan fod y ffordd yn culhau. Nid oes pwrpas cynnig gwaharddau wrth rhif 10 gan fod yna ddigon o led i ddau gerbyd cyffredin fynd heibio ei gilydd wrth gymryd pwyll.

Cytunwyd hefo sylwadau Andrew Gregson, i ymestyn y llinnellau melyn hyd at rhif 6 fel yr oedd wedi awgrymu, ac mae'r Clerc wedi anfon y penderfyniad ato.

Dyma oedd oedd y sylwadau a dderbyniwyd i gefnogi'r penderfyniad.

- **Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig.** Mae'n medru bod yn brysur ar adegau. Mae'n anodd i gerbydau basio ei gilydd mewn mannau ar hyd y lon, yn enwedig os ydynt yn loriau/tractor a threlar. Weithiau, mae loriau yn gorfod bagio nol i lawr at y bont, os ydynt yn gweld nad oes digon o le iddynt basio.

- **A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus**. Pryder achlysurol, mae cerbydau yn parcio uwch i fyny'r lon i fynd i gerdded ar hyd yr afon a byddai llinnell felyn yn osgoi parcio yn y mannau sydd o dan sylw, ar gyfnodau prysur a dim lle arall i barcio.
- **A yw'r gwaharddiadau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.** Nac ydi, gwella'r sefyllfa fyddai gosod llinnellau melyn yn uwch i fyny, a'i gwneud yn hwylusach i gerbydau basio.
- **Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrrwyr.** Mae llinnellau melyn wedi cael ei gosod mewn rhan o'r lon yma eisioes. Gofynwyd am linnellau melyn yn uwch i fyny rai blynyddoedd yn nol, ond nid ydym yn gwybod pam na chawsant ei rhoi yn uwch i fyny adeg honno. Mae cymdogion sydd yn byw yn rhesdai Maenywern yn deall y pwysigrwydd o osod y llinnellau melyn yma, ac anaml mae cerbydau yn parcio arnynt. Mae un o'r cymdogion wedi bod yn rhoi bin brown a 2 'cone' mawr yn uwch i fyny'r lon ar ol i'r llinnell felyn stopio, er mwyn stopio cerbydau barcio yno, oherwydd nad oeddent yn mynd i fyny ddigon uchel.

- **Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal.** Byddai gosod llinnell felyn yn uwch i fyny, fel ag y nodwyd uchod yn golygu na fyddai cerbydau yn parcio yno, ac felly'n ei gwneud yn saffach i bawb. Nodwyd hefyd fod Canolfan Iaith Tŷ Newydd weithiau yn cael trafferth cael archebion bwyd e.e. gan gwmni bwyd Harlech gan nad yw'r loriau bach yn gallu dod fyny'r lon oherwydd parcio gwael (yn yr haf yn bennaf). Hefyd, os byddai argyfwng yna byddai'n anodd i ambiwlans neu frigad dân basio ac mae'n anodd iawn mynd lawr y ffordd yma hefo tractor a threlar.

10. **Rhoslan/Ynys**
**Lon rhwng Llwyn yr Eryr – dros Pont Bryn Beddau ac i fyny am gyfeiriad Rhoslan** mewn cyflwr drwg ac yn dyllog mewn mannau. Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd os oes modd ei thrwsio, ac wedi derbyn ateb yn dweud fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'i rhaglen gwaith.

11. **Chwilog**
**Cau'r ffordd rhwng Glan y Wern i'r cyffordd ger Ysgubor Fawr, Chwilog – i ail wynebu'r lon rhwng Pencarth ac Ysgubor Fawr** am 3 diwrnod o'r 27.02.2026 ymlaen.

12. **Pencaenewydd/Sardis**
**Llinnellau melyn Tregarn** – Clerc wedi holi barn Cynghorwyr Ward Llangybi a'r Cynghorydd Rhys Tudur am y sylwadau a wnaed gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig ar ol iddo wedi ymweld a'r safle.
Cytunwyd i dderbyn opsiwn 2, sef fod mwy o linnellau melyn i'w gweld ymhellach i mewn wrth droi i mewn i stad Tregarn. Dyma oedd y rhesymau i'r cwestiynau.

- **Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae rhaid rhoi rhesymeg gyfreithiol gadarn i berwyl hyn)**. Mae trelar sgrap/cerbydau/ trelar ceffyl yn parcio yma weithiau sydd yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio.
- **A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus**. Amrywio o un diwrnod i'r llall.
- **A yw'r gwaharddiadau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.** Mae cael llinnellau melyn yn golygu bydd y fynedfa yn glir, ond mae'n bosib byddant yn parcio ar hyd y lon gerllaw.
- **Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrrwyr** - ni ddylai hyn amharu ar ymddygiad gyrrwyr.
- **Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal**. - Mi fydd yn dangos fod rhywbeth yn cael ei wneud i geisio datrys y broblem. Mae problem hefyd ar y lon fawr, sydd o flaen y clawdd o flaen y rhesdai, ond byddai rhoi llinnellau melyn yn y man hwnnw yn creu problemau parcio pan fydd digwyddiadau yn cael ei cynnal yn y Capel.

13. **Llangybi**.
**Groeslon Tŷ Newydd** – mae problem weithiau pan fydd cerbydau yn teithio o gyfeiriad Llangybi yn peidio stopio cyn croesi'r lon. Mae achosion wedi bod pan fydd car yn dod o gyfeiriad Pencaenewydd yn gorfod stopio'n sydyn, a bu damwain car yno rai misoedd yn nol, ac wedi achosi difrod mawr i'r ddau gerbyd. Mae angen arwydd 'OEDI/STOP' yno. **Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.**

14. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 28.02.2026. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Cais ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** – Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor, fod taliad o £417.80 ar 27.02.2026 wedi cael ei ad-dalu i'r Cyngor Cymuned .

16. **Cyfraniadau ariannol** – wedi derbyn llythyrau/ebyst yn diolch am y cyfraniadau a wnaed. Derbyniwyd un cais newydd 26.02.2026, ac mae'r Clerc wedi ei hysbysu fod y dyddiad cau ar 15 Ionawr bob blwyddyn. Gofynwyd i'r Clerc egluro'r drefn, a'i cynghori i wneud cais arall o fewn yr amser penodedig flwyddyn nesaf.

17. **Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi** – yn diolch am y cyfraniad ariannol, ac mae swyddogion y Clwb wedi rhoi cynnig i'r Cyngor Cymuned am unrhyw gymorth byddai'r Clwb yn medru ei roi i'r gymuned. Ychydig flynyddoedd yn ôl fe wnaeth y Clwb beintio safle bws Llangybi, felly trafodwyd y mater, gan feddwl efallai byddent yn medru ei beintio eto, casglu sbwriel ar hyd y lon o gwmpas Pencaenewydd/Llangybi, ac efallai blannu blodau o gwmpas pentref Pencaenewydd a Llangybi.

18. **Prisiau torri llwybrau/cae chwarae** – bydd angen trefnu i osod hysbyseb yn Y Ffynnon, y wefan a'r hysbysfyrddau hefo dyddiad cau 30.04.2026.

19. **Archwilio mewnol** – penderfynwyd gofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwilio am y flwyddyn rhwng 01.04.2025 - 31.03.2026.

20. **Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog wedi cael ei ariannu gan Gronfa Gwynedd Ni** – wedi cael ei osod gan Mr Gareth Lewis ar 23.02.2026, a derbyniwyd bil ganddo a oedd rhy hwyr i gael ei gynnwys ar y rhaglen. Cytunwyd y byddai'n iawn i'r Clerc ei dalu yn dilyn y cyfarfod. Derbyniwyd ebost gan Bwyllgor y Fynwent yn diolch i bawb wnaeth gynorthwyo.

21. **Cronfa Gwynedd Ni** – derbyniwyd gwybodaeth ei bod yn edrych yn debygol iawn bydd y gronfa yma yn ail-agor eleni a bydd mwy o wybodaeth ddechrau Mawrth, ac felly mi roedd yn awgrymu i'r Cyngor wneud ymchwil cychwynnol ar gyfer unrhyw gynlluniau newydd. Er hyn, mae'n bosib mai cronfa cyfalaf yn unig fydd o felly ni fydd cyngerdd / digwyddiad yn gymwys.
Bwriad y gronfa yw cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus ac yn cyfrannu at adfywio lleol – bu i rhai Cynghorau Tref a Chymuned fanteisio ar y gronfa yma llynedd.

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Un Llais Cymru | Tâl Aelodaeth 01.04.2026-31.03.2027 | **422.00** | | **422.00** | **422.00** |
| SLCC | Tâl Aelodaeth 01.04.2026-31.03.2027 | **158.00** | | **158.00** | **158.00** |
| *G.L.Jones Builders* | *Derbyniwyd y bil 02.03.2026 ar ol gwneud y rhaglen. Gosod hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog* | ***310.00*** | ***62.00*** | ***372.00*** | ***372.00*** |
| *Idris Jones* | *Derbyniwyd y bil 05.03.2026 ar ol gwneud y rhaglen. Clirio clawdd Maenywern, Llanystumdwy.* | ***650.00*** | ***130.00*** | ***780.00*** | ***780.00*** |

23. Cyflog mis Chwefror 2026 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2026<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75<br>Llai treth-<br>£132.00 =<br>**£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2026<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Chwefror 2026 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf nos Iau 02.04.2026 yn Festri Pencaenewydd a drwy zoom.**

24. **Materion hwyr**

a. **Cais cynllunio C26/0112/41/DT, Blaen y Wawr**, Chwilog cais am estyniad ochr ddwyreiniol yr eiddo. **Dim gwrthwynebiad**.

b. **Idris Jones, bil am glirio Maenywern** wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'w roi ar y rhaglen, ond cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod gweler manylion uchod pwynt 22.

c. **Gareth L.Jones Builders, bil am osod yr Hysbysfwrdd Beirdd** wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'w roi ar y rhaglen, ond cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod, gweler manylion uchod pwynt 22.

ch) **Lloches bws ger Maes Myrddin** – derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr y lloches bws. Clerc wedi ffonio ac ebostio Mr Dafydd Wheldon Hughes, Swyddog Cludiant, Cyngor Gwynedd i gael mwy o wybodaeth. Fe wnaeth gynnig rhoi cais am loches newydd ar y safle, ar ei rhestr nhw, yn ddi-gost i'r Cyngor Cymuned, fel cais am uwchraddio. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol sydd yn dod.

Yn y cyfamser, ac erbyn y cyfarfod nesaf, cysidro peintio y rhannau sydd wedi rhydu a cheisio gosod y panel sydd wedi dod i ffwrdd yn nol.

d. **Cae'r Felin, Llanystumdwy** – stad newydd gan Tai Gogledd Cymru – rhoi gwahoddiad i aelodau o'r Cyngor Cymuned ymweld â'r safle newydd a bydd yn manylion yn dilyn.